

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,  
Y Tyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499


 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

3 Medi 2021

## Cychwyn blwyddyn academiaidd newydd: 2021-22

Annwyl Riant / Warcheidwad

Ysgrifennaf atoch ar drothwy cychwyn blwyddyn academiaidd newydd gan obeithio bod pawb yn iach ac wedi medru mwynhau cyfnod o orffwys yn ystod gwyliau'r haf. Mae llawer wedi newid ers i mi ysgrifennu atoch ddiwethaf, yng nghanol mis Gorffennaf, a bwriad y llythyr hwn yw cyflwyno ychydig o wybodaeth ddefnyddiol i chi am ein gweithdrefnau ar gychwyn tymor newydd.

### COVID-19:

Yn ddi-os, mae sefyllfa COVID-19 wedi gwella llawer erbyn hyn, gyda Llywodraeth Cymru yn penderfynu llacio nifer o'r cyfyngiadau cymdeithasol wrth symud at lefel rhybudd sero. Gwyddom serch hynny fod COVID yn parhau o fewn ein cymdeithas a bod nifer yr achosion yn parhau'n bryderus o uchel, yn enwedig ymysg pobl ifanc.

Mae'r rhaglen frechu genedlaethol wedi bod yn hynod lwyddiannus, gyda mwyafrif oedolion Cymru wedi derbyn dau frechiad erbyn hyn. Mae'r brechlyn wedi llwyddo i leihau nifer y cleifion COVID sydd wedi gorfod derbyn triniaeth yn yr ysbyty ac wedi lleihau nifer y marwolaethau yn syfrdanol.

Mae'r mwyafrif helaeth os nad pob aelod o staff wedi eu brechu erbyn hyn, a'r gobaith yw y bydd mwyafrif ein myfyrwyr 16 ac 17 oed wedi derbyn o leiaf un brechiad erbyn iddynt ddychwelyd i'r ysgol yr wythnos nesaf.

Mae'n bwysig i ni gofio nad yw'r brechlyn yn ein hatal rhag dal y feirws, ond mae wedi'i brofi ei fod yn helpu lleihau trosglwyddiad y feirws i eraill.


Mae Cynllun Rheoli COVID Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi bod disgwyl i ysgolion weithredu mewn ffordd sydd mor agos â phosibl at yr hyn sy'n arferol ar lefel rhybudd sero. Bydd mesurau sylfaenol, gan gynnwys asesiadau risg, trefniadau hylendid ac awyru gwell, a threfniadau i atal presenoldeb gan unigolion â symptomau COVID-19, yn parhau i fod ar waith, ond caiff mesurau eraill eu llacio fel rhan o system gymesur o fesurau rheoli. Mae cynllun y Llywodraeth yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ysgolion wneud penderfyniadau a llunio ymyriadau wedi'u teilwra'n lleol, gyda chymorth awdurdodau lleol, timau rheoli achosion lluosog a swyddogion iechyd y cyhoedd.

Mae disgwyl i unrhyw un sydd yn cael prawf COVID-19 positif ynysu am 10 diwrnod, ond, ar lefel rhybudd sero, nid oes rhaid i'r rheini a fu mewn cyswllt â'r achos positif sydd o dan 18 oed neu sydd wedi'u brechu'n llawn hunanynysu, oni bai eu bod nhw eu hunain yn dechrau dangos symptomau. Fe ddylai'r penderfyniad yma gan Lywodraeth Cymru leihau'r effaith ar ysgolion ac addysg yn sylweddol y tymor hwn.

Yn naturiol, rwyf am ddiogelu disgyblion a staff rhag dal COVID-19, felly bydd y gweithdrefnau canlynol yn weithredol yn yr ysgol ar gychwyn y tymor, a gofynnaf yn garedig i chi egluro pwysigrwydd y gweithdrefnau hyn wrth eich plentyn/plant er mwyn atal lledaeniad y feirws ymysg ein gilydd:

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,  
YTyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499


 post@ysgolplasmawr.cymru

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 post@ysgolplasmawr.cymru

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Gofynnaf yn garedig i chi gadw eich plentyn gartref os oes unrhyw arwyddion o salwch neu anhwylder, a chofrestru am brawf PCR. Mae'n hanfodol bwysig bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn parhau i gymryd y risg o ledaeniad COVID o ddifrif ac yn gwneud pob ymdrech i atal y feirws rhag cyrraedd yr ysgol. Mae gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu Caerdydd a'r Fro yn cynghori y dylid archebu prawf os dangosir y symptomau canlynol: blinder, myalgia (poenau neu wynegu yn y cyhyrau), llwnc tost, pen tost, trwyn yn rhedeg, cyfog, chwydu, neu ddolur rhydd. Gofynnir i bawb ystyried cael prawf os ydynt yn dangos unrhyw un o'r symptomau ehangach hyn a'u bod yn symptomau newydd, parhaus ac/neu anarferol iddyn nhw.

Os oes dysgwr, aelod o staff neu ymwelydd yn mynd yn sâl neu'n symptomatig wrth fynychu'r ysgol, fe fyddwn yn trefnu eu bod yn gadael yr ysgol cyn gynted ag y bo modd ac yn dilyn cyngor Profi, Olrhain a Diogelu, gan gynnwys hunanynysu a threfnu prawf.

Mae disgwyl i ddisgyblion a staff gymryd prawf llif unffordd yn y cartref ddwywaith yr wythnos cyn dychwelyd i'r ysgol, 2 neu 3 diwrnod ar wahân ac yna yn wythnosol yn ystod y tymor. Mae angen i ddisgyblion gofio casglu pecynnau newydd o'r ysgol pan fo angen. Yn amlwg, os yw'r prawf yn un cadarnhaol, bydd angen cysylltu â'r ysgol cyn gynted ag y bo modd, yn ogystal â'r gwasanaeth iechyd er mwyn trefnu prawf PCR. Mae'r profion yn rhai gwirfoddol ond rwy'n annog pawb i'w defnyddio.

Os nad oes mwy o brofion llif unffordd gennych yn y tŷ ar gyfer yr wythnos cyn dychwelyd i'r ysgol, fe allwch archebu profion drwy'r fferyllfa leol neu drwy wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/cael-profion-llif-unffordd-covid-19-cyflym-os-nad-oes-gennych-symptomau>

Mae gwisgo mygydau neu orchudd wyneb mewn manau cyhoeddus yn parhau i fod yn orchymynnol yng Nghymru, felly fe fydd disgwyl i bob aelod o gymuned yr ysgol wisgo mwgwd neu orchudd wyneb o fewn adeilad yr ysgol, o fewn ein manau cyhoeddus, ar y grisiau ac ar hyd y coridorau. Ni fydd disgwyl i ddisgyblion na staff wisgo eu mygydau yn yr ystafelloedd dosbarth oni bai eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus neu'n ddiogel wrth wneud hynny. Gofynnir yn garedig i chi atgyfnerthu pwysigrwydd gwisgo gorchudd wyneb ar y bysiau ysgol. Mae hyn yn orchymyn cenedlaethol ar gyfer teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mae disgyblion yn peryglu eu lle ar y bws os nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheol hyn. A fyddai modd i chi sicrhau fod gan eich plentyn orchudd wyneb addas bob dydd?

Byddwn yn annog ein dysgwyr i olchi eu dwylo yn rheolaidd yn ystod y dydd. Caniateir i ddisgyblion ddod â'u diheintydd dwylo eu hunain i'r ysgol.

Bydd angen i bob disgybl gofio dod â chas pensiliau llawn i'r ysgol gan nad yw hi'n synhwyrol i fenthyg neu rannu offer. Mae hyn yn cynnwys yr holl offer y byddai disgwyl i ddisgybl gael mewn gwrs fathemateg e.e. pren mesur, cyfrifiannell, onglydd, pensil a.y.y.b.


Caniateir i ddisgyblion ddod â theclynnau diwifr, gwefrwr a chlustffonau i'r ysgol er mwyn hwyluso'r broses ddysgu. Cofiwch wirio bod y teclyn wedi ei gynnwys dan yswiriant y tŷ neu debyg gan nad oes modd gwarantu diogelwch yr offer yn yr ysgol.

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,  
YTyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499


 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Gofynnir i bob disgybl ofalu am ei fag ysgol yn ystod amser egwyl a chinio ac i osgoi gadael y bag heb oruchwyliaeth drosto.

Gofynnwn yn garedig i chi drefnu apwyntiad os am weld aelod o staff. Fe all y mwyafrif o gyfarfodydd ddigwydd naill ai'n rhithiol neu drwy alwad ffôn.

**Gwisg ysgol:** Disgwylir i bob disgybl wisgo gwisg ysgol arferol ym mis Medi. Byddwn yn mynnu safonau uchel o ran gwisg. Gwiriwch y rheolau, gan gofio dim jîns, legins na sgertiau lycra—sgertiau a throwsus o ddefnydd gwisg ysgol yn unig. **Dim gemwaith, dim ewinedd ffug na lliw gwallt annaturiol.** Colur naturiol yn unig. Parhewch i wirio eich plentyn yn y bore cyn iddynt adael am yr ysgol i sicrhau nad ydynt yn gwisgo gemwaith i'r ysgol.

**Gwisg addysg gorfforol:** Mae ystafelloedd newid yn peri risg uwch o drosglwyddo'r feirws, felly rydym am barhau i ganiatáu i ddisgyblion wisgo cit addysg gorfforol i'r ysgol ar ddiwrnodau gwersi addysg gorfforol. Ni chaniateir unrhyw eitemau o git sydd heb fathodyn yr ysgol arno. Gofynnaf yn garedig i chi sicrhau bod gan eich plentyn nodyn i'r athro os oes rheswm am ddiffyg cit neu reswm dilys pam na all y disgybl gymryd rhan yn y wers.

**Ffonau symudol:** Allwch chi atgyfnerthu rheol yr ysgol ar y defnydd o ffonau symudol gyda'ch plentyn, os gwelwch yn dda? Caniateir y defnydd o ffonau symudol yn yr ystafell ddosbarth yn unig gyda chaniatâd athro ar gyfer cefnogi'r broses ddysgu. Ni chaniateir y defnydd o ffonau symudol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Os oes angen i ddisgybl gysylltu gartref am unrhyw reswm, dylent fynd i'r ardal cynnydd i ofyn am ganiatâd a gwneud yr alwad dan oruchwyliaeth.

**Gwasanaeth arlwygo:** Fe fydd y tîm arlwygo yn cynnig gwasanaeth cinio yn unig o gychwyn y tymor. Fe fyddai'n werth ystyried darparu pecyn bwyd i'ch plentyn am rai diwrnodau nes bo'r gwasanaeth arlwygo yn gwbl weithredol ac er mwyn osgoi gorfod ciwio'n hir am fwyd. Mae darparu byrbryd i'ch plentyn ar gyfer amser egwyl hefyd yn syniad da. Bydd angen i ddisgyblion Bl 7 ddod â phecyn bwyd i'r ysgol yn ddyddiol nes bo'r system taliadau biometrig yn weithredol, fe allai hyn gymryd rai dyddiau.

**Bysiau ysgol (Adran Drafnidiaeth yr Awdurdod Lleol):** Fe ddylai pob plentyn sydd yn gymwys i dderbyn cludiant i'r ysgol gan wasanaeth drafnidiaeth y sir fod wedi derbyn manylion drwy'r post yn ystod yr wythnosau diwethaf. Os ydych am wneud ymholiadau pellach, yna cysylltwch gydag adran drafnidiaeth ysgolion y sir: 029 20 873252 neu e-bost: [SLLschooltransport2@cardiff.gov.uk](mailto:SLLschooltransport2@cardiff.gov.uk)

## Trefniadau mis Medi:

Dydd Gwener	3 Medi:	Hyfforddiant Mewn Swydd.
Dydd Llun	6 Medi:	Hyfforddiant Mewn Swydd.
Dydd Mawrth	7 Medi:	Blwyddyn 7, 10 a 12 yn unig.

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,  
YTyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499


 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Dydd Mercher 8 Medi: Pawb yn ôl.

**Bydd y wers gyntaf yn cychwyn am 08:45 a bydd yr ysgol yn gorffen am 15:10 ym mis Medi.**

Os ydych am fwy o wybodaeth am unrhyw agwedd o fywyd ysgol eich plentyn, cofiwch gysylltu trwy e-bost gyda'r Pennaeth Blwyddyn neu aelod o'r Tîm Cynnydd a Lles perthnasol:

Blwyddyn 7:	Fflur Rowlands:	<a href="mailto:Ffr@ysgolplasmawr.cymru">Ffr@ysgolplasmawr.cymru</a>
Blwyddyn 8:	Elin Owen:	<a href="mailto:EO@ysgolplasmawr.cymru">EO@ysgolplasmawr.cymru</a>
Blwyddyn 9:	Nia Francis:	<a href="mailto:NF@ysgolplasmawr.cymru">NF@ysgolplasmawr.cymru</a>
Blwyddyn 10:	Rhian Davies:	<a href="mailto:RhD@ysgolplasmawr.cymru">RhD@ysgolplasmawr.cymru</a>
Blwyddyn 11:	Dion Davies:	<a href="mailto:DD@ysgolplasmawr.cymru">DD@ysgolplasmawr.cymru</a>
Blwyddyn 12:	Catrin Edwards:	<a href="mailto:CE@ysgolplasmawr.cymru">CE@ysgolplasmawr.cymru</a>
Blwyddyn 13:	Gareth Thomas:	<a href="mailto:GT@ysgolplasmawr.cymru">GT@ysgolplasmawr.cymru</a>
Pennaeth Cynorthwyol:	Paul Harris:	<a href="mailto:PH@ysgolplasmawr.cymru">PH@ysgolplasmawr.cymru</a>
Arweinydd Cynnydd a Lles:	Helen Stiff:	<a href="mailto:HS@ysgolplasmawr.cymru">HS@ysgolplasmawr.cymru</a>
Cydllynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol:	Trystan Williams:	<a href="mailto:TW@ysgolplasmawr.cymru">TW@ysgolplasmawr.cymru</a>
Anogwr Dysgu CA3:	Rebecca Anderson:	<a href="mailto:RA@ysgolplasmawr.cymru">RA@ysgolplasmawr.cymru</a>
Anogwr Dysgu CA4:	Rebecca Rigby:	<a href="mailto:RR@ysgolplasmawr.cymru">RR@ysgolplasmawr.cymru</a>
Anogwr Dysgu CA5:	Fiona Harries:	<a href="mailto:FAH@ysgolplasmawr.cymru">FAH@ysgolplasmawr.cymru</a>
Swyddog gweinyddol yr ardal cynnydd:	Hannah McAloon:	<a href="mailto:HMcAloon@ysgolplasmawr.cymru">HMcAloon@ysgolplasmawr.cymru</a>

**Bariau diogelwch wrth fynedfa flaen yr ysgol:** Mae'r Awdurdod Lleol wedi gosod bariau diogelwch ar fynedfeydd blaen yr ysgol. Fe fyddant yn caniatáu i ni reoli llif traffig ar y safle yn ystod y dydd a diogelu ein disgyblion.

Cofion cynnes a chadwch yn ddiogel,

John Hayes  
Pennaeth



# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,  
Y Tyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebaen Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

3 September 2021

## Beginning of the new academic year: 2021-22

Dear Parent / Guardian

I am writing to you on the threshold of a new academic year in the hope that you are well and have managed to enjoy some rest and relaxation time during the summer holidays. Much has changed over the past few weeks and my intention with this letter is to share some current information that will be of interest to you at the beginning of the new term.

### COVID-19:

The COVID-19 situation has certainly improved, and the Welsh Government has decided to move to warning level zero, easing many of the social restrictions that had been in place for the previous 18 months. However, we know that the virus remains within our communities and that the number of positive cases remains worryingly high, especially amongst young people. The national vaccination programme is extremely successful, with most adults in Wales having received both doses. The programme has resulted in a dramatic reduction in cases requiring hospitalisation and COVID-related deaths.

The majority if not all members of staff have been double vaccinated, and my hope is that the majority of our 16 and 17-year-old students will have also received at least the first dose of the vaccine before they return to school next week.

It is important to remember that being immunised for COVID-19 does not mean that we cannot become infected by the virus, but it has been proven that it significantly reduces the risk of transmission of the virus.

The Welsh Government's COVID control plan which was published recently signals the expectation that schools should operate as normally as possible at alert level zero. Baseline measures including risk assessments, improved hygiene and ventilation, and preventing attendance by individuals with COVID-19 symptoms will continue to be in place, but other measures are being relaxed as part of a proportionate system of controls. For schools, this will allow some flexibility for local decision-making and tailored interventions, supported by local authorities, incident management teams and public health officials.

Individuals who test positive for COVID-19 still have to isolate for 10 days. However, at alert level zero, contacts of a proven case of COVID-19 who are under the age of 18 or those who are fully vaccinated do not have to self-isolate unless they themselves start to show symptoms of COVID-19. This Welsh Government decision will reduce the impact on schools and education significantly this term.

Naturally, I am eager to protect staff and pupils from the risk of being infected by the virus, therefore the following rules and regulations will remain in place for the start of term. I would kindly ask you to reinforce the importance of these rules and regulations with your child before he/she returns to school in order to reduce the possible risk of transmission of the virus in school:

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,  
YTyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 post@ysgolplasmawr.cymru

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 post@ysgolplasmawr.cymru

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

I would urge you to keep your child at home if he/she is feeling unwell and to make arrangements for a PCR test in order to protect every member of the school community. It is essential that every member of the school community does their utmost to ensure that the virus does not enter the school and we must continue to focus our efforts on keeping everyone safe from the virus. The Cardiff and Vale Test, Trace and Protect service is advising that a test should be booked if the following symptoms are displayed: fatigue, myalgia (muscle ache or pain), a sore throat, a headache, a runny nose, nausea, vomiting, or diarrhoea. Residents are asked to consider taking a test if they are experiencing any of these wider symptoms and they are new, persistent and/or unusual symptoms for them.

If a staff member or learner becomes symptomatic whilst at school, arrangements will be made for them to leave the school site as practicable, and they should arrange a test as soon as possible and self-isolate until the outcome of the test.

Staff and pupils are reminded of the importance of testing themselves with the lateral flow tests twice weekly before they return to school, 2 to 3 days apart and throughout the term. Remind your child to ask for another testing kit in school once they've finished a kit. If your child tests positive, please report the result directly to school and to the local health board. These lateral flow tests are voluntary, but I would encourage pupils and staff to take the tests as a further precautionary measure. If you do not have sufficient kits at home for the week preceding the return to school, they can be obtained through local pharmacies or ordered via the Welsh Government website:

<https://gov.wales/get-rapid-lateral-flow-covid-19-tests-if-you-do-not-have-symptoms>

The wearing of masks/face coverings is mandatory in public spaces in Wales. I therefore expect every member of the school community to wear a mask or face covering within the school building, our communal areas, corridors and stairways. The wearing of a mask/face covering in class is not mandatory, but pupils are encouraged to wear one if they feel more comfortable or safe in doing so. The wearing of masks/face coverings is mandatory on public transport, which includes school transport. Your child risks being refused the right to travel on a school bus if they do not wear a mask/face covering. Please can you ensure that your child has a mask/face covering in their pocket or school bag as they leave home for school in the morning?

Pupils will be encouraged to wash their hands regularly throughout the day and are permitted to bring their own hand sanitiser to school if they wish to do so.

Pupils are expected to bring their own pencil case and learning resources to school to cater for their range of subjects, as sharing equipment will not be encouraged. Every pupil should have their own calculator, protractor, ruler, pencil, colouring pencils etc.

Pupils are allowed to bring their own Wi-Fi devices to school with suitable chargers and headphones which will support the learning process. Could you please ensure that any device is insured under household or other suitable insurance policies as we are unable to guarantee the safety of these devices in school?

We will ask pupils to be responsible for their school bags throughout the school day, including break time and lunch time.

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,  
YTyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

We ask kindly that you make an appointment if you would like to speak to a member of staff. Most meetings can be accomplished virtually or by telephone.

**School uniform:** Pupils are expected to wear the normal school uniform in September. We will maintain our high standards with regard to uniform. May I remind you that we do not allow, jeans, leggings or lycra skirts. Skirts and trousers of school uniform material only. No jewellery, no false nails or hair of an unnatural colour. Natural make-up only. Please continue to check that your child is not wearing jewellery as he or she leaves for school in the morning.

**PE kit:** Changing rooms pose a high risk of virus transmission, therefore we will continue to allow pupils to wear their formal PE kit to school on the days that they have PE lessons. Items of kit without the school badge are not acceptable. Could you please write a brief note for the teacher if your child has no kit or cannot participate in a lesson for any reason?

**Mobile phones:** Could you please assist us in explaining to your child the school rule on the use of mobile phones in school? The use of mobile phones is not permitted in school apart from in lessons under the direction and supervision of the teacher for learning purposes. If your child needs to make a call during the day, they must go the progress area and explain the situation to a member of staff who will then supervise the pupil whilst making the call.

**Catering arrangements:** The catering team will be offering a lunch-time service from the beginning of term. However, you may wish to consider providing your child with a packed lunch for the first few days of term as it will inevitably take the catering team a few days to become fully operational and to avoid long queues for food. Providing your child with a break-time snack is also advisable. Year 7 pupils will need to bring a packed lunch to school daily until their biometric payment system has been activated, this may take a few days.

**School transport (Local Authority public and passenger transport team):** Every pupil who is eligible for school transport will have received notifications through the post over the past few weeks. If you have any queries regarding school transport, please contact 029 20 873252 or e-mail [SLLschooltransport2@cardiff.gov.uk](mailto:SLLschooltransport2@cardiff.gov.uk)

## Arrangements for September:

Friday, 3 September: INSET day.

Monday, 6 September: INSET day.

Tuesday, 7 September: Years 7, 10 and 12 only.

Wednesday, 8 September: Everybody back to school.

If you need to discuss any aspect of school life or any welfare issues, please contact the relevant member of staff:

Year 7:

Fflur Rowlands:

[Ffr@ysgolplasmawr.cymru](mailto:Ffr@ysgolplasmawr.cymru)

Year 8:

Elin Owen:

[EO@ysgolplasmawr.cymru](mailto:EO@ysgolplasmawr.cymru)

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,  
YTyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Year 9:	Nia Francis:	<a href="mailto:NF@ysgolplasmawr.cymru">NF@ysgolplasmawr.cymru</a>
Year 10:	Rhian Davies:	<a href="mailto:RhD@ysgolplasmawr.cymru">RhD@ysgolplasmawr.cymru</a>
Year 11:	Dion Davies:	<a href="mailto:DD@ysgolplasmawr.cymru">DD@ysgolplasmawr.cymru</a>
Year 12:	Catrin Edwards:	<a href="mailto:CE@ysgolplasmawr.cymru">CE@ysgolplasmawr.cymru</a>
Year 13:	Gareth Thomas:	<a href="mailto:GT@ysgolplasmawr.cymru">GT@ysgolplasmawr.cymru</a>
Assistant Headteacher:	Paul Harris:	<a href="mailto:PH@ysgolplasmawr.cymru">PH@ysgolplasmawr.cymru</a>
Progress Leader:	Helen Stiff:	<a href="mailto:HS@ysgolplasmawr.cymru">HS@ysgolplasmawr.cymru</a>
SENCO:	Trystan Williams:	<a href="mailto:TW@ysgolplasmawr.cymru">TW@ysgolplasmawr.cymru</a>
KS3 Learning Coach:	Rebecca Anderson:	<a href="mailto:RA@ysgolplasmawr.cymru">RA@ysgolplasmawr.cymru</a>
KS4 Learning Coach:	Rebecca Rigby:	<a href="mailto:RR@ysgolplasmawr.cymru">RR@ysgolplasmawr.cymru</a>
KS5 Learning Coach:	Fiona Harries:	<a href="mailto:FAH@ysgolplasmawr.cymru">FAH@ysgolplasmawr.cymru</a>
Administrative Assistant:	Hannah McAloon:	<a href="mailto:HMcAloon@ysgolplasmawr.cymru">HMcAloon@ysgolplasmawr.cymru</a>

**Security barriers:** The Local Authority has installed security barriers on both entrances at the front of the school. The barriers will allow us to manage site traffic and will assist us greatly in ensuring the safety of our pupils during the school day.

Best wishes and please remain safe,

John Hayes  
Headteacher